# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 21 Mai 2018

## SL(5)213 – Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2005 mewn perthynas â materion y mae rhaid i awdurdod lleol ymdrin â hwy yn ei adroddiad ar gyfer y llys, a'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig i blant a oedd gynt yn derbyn gofal mewn ardal awdurdod lleol arall.

**Rhiant-Ddeddf:**

**Fe'u gwnaed ar:** 02 Mai 2018

**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Mai 2018

**Yn dod i rym ar:** 02 Gorffennaf 2018

## SL(5)214 – Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig

### Gweithdrefn: Negyddol

Caiff y cod ymarfer hwn ei gyhoeddi yn unol ag adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'), sy'n rhoi grym i Weinidogion Cymru gyhoeddi deddfwriaeth ynglŷn ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig, weithredu yn unol â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y cod hwn. Nid yw adran 147 o'r Ddeddf (eithrio o ofynion deddfwriaeth) yn berthnasol i unrhyw un o'r gofynion sydd wedi eu

cynnwys yn y cod hwn, felly mae'n rhaid dilyn y cod hwn yn ei gyfanrwydd.

Yn y cod hwn, mae rheidrwydd wedi ei fynegi fel 'rhaid' a 'ni chaiff'. Caiff canllawiau eu mynegi fel 'gall / gellir' ac 'nid oes rhaid' neu 'dylai' ac 'ni ddylai'.

Mae'r cod ymarfer hwn yn disodli'r canllawiau statudol ar warcheidiaeth arbennig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006.

Yn ystod 2016-17 aeth Llywodraeth Cymru ati i adolygu gorchmynion gwarcheidiaeth yng Nghymru. Mae'r cod ymarfer hwn yn deillio o'r adolygiad hwnnw. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i aelodau'r Grŵp Technegol Gwarcheidiaeth Arbennig a gynorthwyodd Llywodraeth Cymru gyda'r adolygiad hwn.

**Rhiant-Ddeddf:** Cyhoeddwyd o dan Adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesaint (Cymru) 2014

**Fe'u gosodwyd ar:** 09 Mai 2018